# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 24AIN GORFFENNAF, 2025**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, ac yn rhithiol drwy Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 16 Gorffennaf 2025)

# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Annwen Hughes | R Medwyn Hughes |
| Nia Wyn Jeffreys | June Jones |
| Menna Trenholme | Olaf Cai Larsen |
| Dafydd Meurig | Dyfrig Siencyn |
| Ioan Thomas | Gwynfor Owen |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Beth Lawton | Angela Russell |
| Anne Lloyd-Jones | Elwyn Jones |
| Sedd wag | |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 8fed o Orffennaf 2025 fel rhai cywir

## 5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau’r wasg a’r cyhoedd allan o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae’r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma fyddai’n gorbwyso hawliau’r unigolion yma. O ganlyniad mae’r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw’r wybodaeth yn eithriedig

## 6. CYFWELD YMGEISWYR AR GYFER SWYDD CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL

I gyfweld ymgeiswyr ar gyfer y swydd

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION 08-07-2025**

**Presenoldeb:** Cyng Ioan Thomas (Cadeirydd)
Cyng. Medwyn Hughes (Is-gadeirydd)

**Cynghorwyr:** Elwyn Jones, June Jones, Anne Lloyd-Jones, Cai Larsen, Dafydd Meurig, Angela Russell, Menna Trenholme a Dyfrig Siencyn

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol), Annes Sïon (Arweinydd Tîm Gwasanaethau Democratiaeth) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Annwen Hughes, Nia Jeffreys, Beth Lawton, a Gwynfor Owen

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 15fed Fai 2025 fel rhai cywir

**5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.**

**6. LLUNIO RHESTR FER AR GYFER CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL**

Adroddodd y Prif Weithredwr bod naw cais wedi eu derbyn am y swydd a rhoddodd grynodeb byr o'r hyn roedd yn ei weld fel rôl Cyfarwyddwr Corfforaethol.

Croesawyd y nifer ceisiadau, ac amrywiaeth y ceisiadau.

Trafodwyd yr holl geisiadau a bu i'r Aelodau ganolbwyntio ar ofynion y swydd a'r cymwyseddau allweddol.

Cynigiwyd ac eiliwyd rhoi tri ymgeisydd ar y rhestr fer.

Cynigwyd gwelliant i'r cynnig, i roi pump ymgeisydd ar y rhestr fer gyda dealltwriaeth, os na fydd ymgeisydd yn cyrraedd y gofynion yn dilyn canlyniadau o'r ganolfan asesu a'r profion seicometreg, bod y Pwyllgor yn rhoi hawl i'r Prif Weithredwr dynnu ymgeiswyr allan o'r broses cyn y cyfweliad.

Ail drafodwyd y ceisiadau

Cynigiwyd ac eiliwyd rhoi pedwar ymgeisydd ar y rhestr fer.

**PENDERFYNWYD:**

**RHOI PEDWAR YMGEISYDD AR Y RHESTR FER AR GYFER CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL**

**Os na fydd ymgeisydd yn cyrraedd gofynion y swydd yn dilyn canlyniadau'r ganolfan asesu a'r profion seicometreg, bod y Pwyllgor yn rhoi hawl i'r Prif Weithredwr dynnu ymgeiswyr allan o'r broses cyn y cyfweliad terfynol**

Wrth ymhelaethu ar y camau nesaf, amlygodd y Prif Weithredwr y byddai'r pedwar ymgeisydd yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn cyfres o ymarferion ar-lein a chyda seicolegwyr busnes. Ategodd y byddai Canolfan Asesu mewnol yn cael ei chynnal, ynghyd a threfniadau asesu pellach o dan ei arweiniad. Bydd adborth o ymatebion a pherfformiad yr ymgeiswyr yn yr ymarferion hynny yn cael eu cyflwyno ar lafar i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion ar ddiwrnod y cyfweliadau.

Trafodwyd testun cyflwyniad a chwestiynau (drafft) ar gyfer y cyfweliad gyda'r Aelodau. Yn dilyn yr adborth a dderbyniwyd, adroddwyd y bydd fersiwn derfynol o'r cwestiynau yn cael eu rhannu gyda hwy cyn diwrnod y cyfweliadau.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 10:55am